**Cofnodion Cyfarfod y PWYLLGOR MOESEG A SAFONAU**

**a gynhaliwyd yn Hybrid yn Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron / o bell trwy gynhadledd fideo ddydd Iau, 13 Hydref 2022**

YN BRESENNOL: Mrs Caroline White (Cadeirydd) Miss Caryl Davies, Ms Carol Edwards a Mr John Weston(Aelodau Annibynnol)

Y Cynghorwyr Gwyn Evans a Caryl Roberts (Aelodau Etholedig) y Cynghorwyr

Delyth James a Jan Culley (Cynghorwyr Tref a Chymuned)

YN BRESENNOL:

Ms Elin Prysor (Swyddog Monitro)

Mrs Lisa Evans (Swyddog Craffu a Safonau)

Mrs Dana Jones (Swyddog Democrataidd a Safonau)

(10.00am-12:10pm )

1 **Ymddiheuriadau**
Ymddiheurodd Mr Alan Davies am ei anallu i fynychu'r cyfarfod.

2 **Materion Personol**
Croesawodd y Cadeirydd y ddau gynrychiolydd newydd o Gynghorau Tref a Chymuned i'w cyfarfod cyntaf, y Cynghorwyr Delyth James a Jan Culley.

3 **Datgan Buddiant Personol / Buddiant sy'n Rhagfarnu**

Datganodd Ms Caroline White fuddiant personol yn eitem 13 ar yr agenda**.**

4 **Cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022 fel rhai cywir**

PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Mai 2022 fel rhai cywir.

**5 Materion sy’n codi**

Eitem 6- Dywedodd y Swyddog Monitro y cadarnhawyd yng nghyfarfod y Cyngor Llawn ym mis Gorffennaf y byddai'r Cynghorydd Gwyn Evans yn dod yn aelod o Is-bwyllgor Safonau'r Cyd-bwyllgor Corfforedig. Bydd ail Gynghorydd Sir yn cael ei benodi yng nghyfarfod 20 Hydref. Byddai’r adroddiad a ystyriwyd fel eitem 13 ar yr agenda, y Diweddaraf am broses recriwtio’r Pwyllgor Moeseg a Safonau yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod 20 Hydref 2022.

Eitem 7 – Roedd yr Adroddiad Blynyddol i fod i'w gyflwyno'n wreiddiol ym mis Gorffennaf ac yna fis Medi, fodd bynnag, canslwyd y cyfarfod ym mis Medi oherwydd cyfnod y galaru cenedlaethol. Byddai’r adroddiad nawr yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod 20 Hydref 2022.

Eitem 8- roedd yn eitem ar yr agenda.

Eitem 9 – Roedd y ddau gynrychiolydd newydd o Gynghorau Tref a Chymuned, y Cynghorwyr Delyth James a Jan Culley fel y dywedwyd yn flaenorol, yn mynychu eu cyfarfod cyntaf.

Eitem 13 - Roedd gweithdy Gweithdrefn Gwrandawiadau wedi'i gynnal ar 30 Medi 2022 .

Eitem 16 – Dim ond arweiniad a roddwyd gan Un Llais Cymru i Glercod Cynghorau Tref a Chymuned ar sut i gwblhau’r Rhaglen Hyfforddiant ar ddiwedd mis Medi, felly byddai adroddiad diweddaru yn cael ei roi i gyfarfod mis Ionawr ar nifer y Cynghorau a roddodd yr adroddiad hwn ac a oedd yn cynnwys hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad.

.Eitem 17- Roeddid yn dal i aros am arweiniad ar yr hunanwerthusiad.

**6 Cofnod y Camau Gweithredu**

CYTUNWYD i nodi Cofnod y Camau Gweithredu fel y'i cyflwynwyd.

**7(i) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Calon Tysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posib ar gyfer

Calon Tysul.  Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001).  Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**7(ii) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Calon Tysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posib ar gyfer Calon Tysul.  Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001).  Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**7(iii) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Llandysul.  Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**7(iv) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Cymdeithas Chwaraeon Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Cymdeithas Chwaraeon Llandysul. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Pwyllgor Rheoli. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis

**7(v) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Sir Ceredigion (Cais Pontweli Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Bwrdd Rheoli fel Cyfarwyddwr. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**7(vi) Y Cynghorydd Keith Evans, Cyngor Cymuned Llandysul (Cais Pontweli Llandysul)**

Cafwyd cais am ollyngiad yn dwyn dyddiad 17 Awst 2022 gan y Cynghorydd Keith Evans i siarad a phleidleisio ar gyllid posibl ar gyfer Llandysul Pont-Tyweli Ymlaen Cyf. Mae'r Cynghorydd Evans yn gwasanaethu ac yn cynghori ar eu Bwrdd Rheoli fel Cyfarwyddwr. Fel eu haelod lleol o'r Cyngor Sir ac o'r Cyngor Cymuned, mae sefydliadau lleol yn dibynnu ar aelodau etholedig am arweiniad, arweinyddiaeth a chymorth.

PENDERFYNWYD rhoi gollyngiad i'r Cynghorydd Evans i siarad a phleidleisio ar y sail bod natur buddiant yr aelod yn golygu na fyddai cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef yn niweidio hyder y cyhoedd wrth gynnal busnes yr awdurdod perthnasol; a bod cyfranogiad yr aelod yn y busnes y mae'r buddiant yn ymwneud ag ef wedi'i gyfiawnhau gan rôl neu arbenigedd penodol yr aelod; (rheoliad 2 (d) ac (f) Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001). Rhoddwyd y gollyngiad am gyfnod 12 mis.

**8 Rheoliadau Newydd mewn perthynas â Chyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru**

CYTUNWYD i nodi cynnwys y rheoliadau diwygiedig.

**9 Canfyddiadau Cod Ymddygiad Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth ac y byddai'r adroddiad hefyd yn cael ei ddosbarthu i Glercod y Cynghorau Tref a Chymuned er gwybodaeth.

**10 Diweddariad ar Faterion sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad er gwybodaeth yn amodol ar roi gwybod i'r pwyllgor mewn adroddiadau yn y dyfodol am unrhyw dueddiadau oedd wedi cynyddu/gostwng. Nododd y Pwyllgor y cynnydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf o dueddiadau'n ymwneud â chyfryngau cymdeithasol a cham-drin ar-lein.

**11 Diweddariad ar faterion Panel Dyfarnu Cymru**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad.

**12 Llythyr Blynyddol yr Ombwdsmon 2021/22**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad. Byddai'r Swyddog Monitro yn gwneud cais i'r Ombwdsmon ychwanegu colofn ychwanegol lle atgyfeiriwyd achos ond nad ymchwiliwyd iddo.

**13 Y diweddaraf am broses recriwtio'r Pwyllgor Moeseg a Safonau a'r penodiadau i Is-bwyllgor Safonau Cyd-bwyllgor Corfforedig Canolbarth Cymru**

**14 Hyfforddiant**

CYTUNWYD i nodi cynnwys yr adroddiad yn amodol ar ychwanegu Hyfforddiant y Gwrandawiadau a gynhaliwyd ar 30 Medi 2022. Hefyd, byddai hyfforddiant ar gael i Gynghorau Tref a Chymuned unigol pe byddai angen.

**15 Ystyried unrhyw geisiadau eraill am ollyngiad a gafwyd ers cyhoeddi'r agenda**

Ni chafwyd dim un.

**16 Blaenraglen Waith**

CYTUNWYD i nodi cynnwys y Flaenraglen Waith yn amodol ar:-

- Y dylid rhoi ystyriaeth bellach i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol fynychu holl gyfarfodydd y pwyllgor, ac i fecanwaith y gallai'r Swyddog Monitro roi adroddiad ar eu rhan yn cyflwyno tystiolaeth o'r gwaith yr oeddent wedi'i wneud mewn perthynas â hybu safonau.
- Roedd Cyngor Sir y Fflint wedi darparu ei dempled i Arweinwyr Grwpiau ei gwblhau. Gellid addasu hwn a rhoi adroddiad amdano i'r pwyllgor yn unol â hynny.
- Adolygiad o'r Datganiad o Weledigaeth
- Byddai'r Clercod yn gofyn am Raglen Hyfforddi ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned i weld a fyddai hyfforddiant Cod Ymddygiad yn orfodol.
- Y byddai’r Cadeirydd a’r Is-gadeirydd ynghyd â Swyddogion yn ystyried Hunanwerthusiad y Pwyllgor gan nad oedd yr arweiniad wedi dod i law eto.

**17 Unrhyw Fater Arall**

Rhoddodd y Swyddog Monitro ddiweddariad i’r Aelodau ar:

- Hysbysiadau Penderfynu’r Ombwdsmon
- Fforwm Safonau Cadeiryddion Cymru Gyfan - gellir cynnal cyfarfod cyn cyfnod y Nadolig. Roedd y cylch gorchwyl yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a byddai Swyddogion Monitro Powys a Cheredigion yn bresennol yn y cyfarfod bob yn ail. Bydd y Cadeirydd, neu'r Is-Gadeirydd, hefyd yn mynychu'r cyfarfod.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Moeseg a Safonau a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:____________________**

**Dyddiad:______________________**